OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 122 (Cy. 28)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *31 Ionawr 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *2 Chwefror 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Chwefror 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 62 a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), a pharagraffau 1 a 2(2)(h) o Atodlen 9 iddi, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Chwefror 2018.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â hysbysiadau galw am dalu sy'n ymwneud â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2018, neu ar ôl hynny, ac a ddyroddir gan awdurdodau bilio Cymreig, neu ar eu rhan.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "hysbysiad galw am dalu" yw hysbysiad galw am dalu o fewn yr ystyr a roddir i "demand notice" yn Rhan II o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989(**3**) a gyflwynir gan awdurdod bilio neu unrhyw berson a awdurdodir gan awdurdod bilio i arfer unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â chasglu ardrethi annomestig (gan gynnwys hysbysiad o'r fath a gyflwynir yn unol â Rhan II o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990(**4**) (cydberchnogion a chydfeddianwyr)).

(**1**) 1998 p. 41. Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 9 gan Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p. 15). Diwygiwyd paragraff 2(2)(h) o Atodlen 9 gan adran 8(1) a (3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17); ac adrannau 139 a 194(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42), a pharagraffau 1, 44(2), (3) a (4) o Atodlen 5 a Rhan 2 o Atodlen 12 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 1989/1058 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1990/145, 1992/1512, 1993/616, 1993/774, 1993/1493, 2009/461 (Cy. 48), 2010/2222 (Cy. 194), 2012/466 (Cy. 77) ac O.S. 2017/113 (Cy. 39).

(**4**) O.S. 1990/145 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/616 ac O.S. 2014/600.

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017**

**2.** Ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017(**5**) (nodiadau esboniadol), yn y paragraff o'r enw rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, yn lle "Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015"(**6**) rhodder "Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017"(**7**).

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru

31 Ionawr 2018

(**5**) O.S. 2017/113 (Cy. 39).
(**6**) O.S. 2015/229 (Cy. 11) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2016/32 (Cy. 13) ac O.S. 2017/25 (Cy. 9).
(**7**) O.S. 2017/1229 (Cy. 293).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") (O.S. 2017/113 (Cy. 39)) yn darparu ar gyfer cynnwys hysbysiadau galw am dalu ardrethi annomestig a gyflwynir gan awdurdodau bilio yng Nghymru, neu ar eu rhan. Mae Atodlen 2 i Reoliadau 2017 yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y nodiadau esboniadol y mae'n rhaid iddynt fynd gyda hysbysiad galw am dalu, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach sy'n gymwys yng Nghymru.

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017 ("Gorchymyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach 2017") (O.S. 2017/1229 (Cy. 293)) yn cyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi newydd i fusnesau bach yng Nghymru o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 2 i Reoliadau 2017 fel bod yr wybodaeth a ddarperir yn y nodiadau esboniadol sy'n mynd gyda hysbysiadau galw am dalu a ddyroddir mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2018, neu ar ôl hynny, yn cyfeirio at Orchymyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach 2017.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.